

# Llais Bro Aled



Rhifyn Arbennig Mawrth 2020

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

Yng nghanol y cyfnod eithriadol hwn yr ydym yn ei wynebu, dyma gyfle i mi egluro peth o'n bwriadau fel Bro dros yr wythnosau nesaf ac i rannu gair o anogaeth o Air Duw hefo chi. Dwi'n siŵr bod llawer ohonoch yn pryderu ynglŷn â pherthnasau a chymdogion bregus, ac yn gofidio am yr hyn sydd o'n blaenau. Ond cofiwch nad yw amgylchiadau argyfyngus yn beth newydd yn hanes pobl Dduw. Cafodd yr Israeliaid eu hachub o gaethiwed greulon yn yr Aifft gan fod yr Arglwydd wedi gweld adfyd ei bobl, ac wedi gweithredu (Exodus 3:7-8). Ac wrth i ni droi at y Testament Newydd gwelwn Paul yn cael ei gynnal yn rhyfeddol wrth iddo ysgrifennu at y Philipiaid o'r carchar. Er gwaethaf ei sefyllfa mae Paul yn datgan gyda ffydd: 'dw i wedi dysgu bod yn fodlon beth bynnag sy'n digwydd i mi. Dw i'n gwybod sut mae byw pan dw i'n brin, a sut beth ydy bod ar ben fy nigon. Dw i wedi dysgu'r gyfrinach o fod yn hapus beth bynnag ydy'r sefyllfa – pan mae gen i stumog lawn, a phan dw i'n llwgu, os oes gen i hen ddigon neu os nad oes gen i ddim. Dw i'n gallu wynebu pob sefyllfa am fod y Meseia yn rhoi'r nerth i mi wneud hynny.' (Philipiaid 4:11-13 Beibl.net)

Beth yw'r allwedd i agwedd Paul at ei argyfwng? Iesu Grist! Mae Paul yn dibynnu'n llwyr ar Grist am nerth, am obaith ac am faddeuant. Ac oherwydd hyn gall wynebu erchyllterau bywyd mewn ffordd sy'n annog eraill i gredu yng Nghrist ac i brofi cariad a chynhaliaeth Duw drostynt eu hunain. Yr un yw'r her i ninnau yn y cyfnod hwn hefyd, ac mae'r Arglwydd Iesu yn ein gwahodd ni trwy'r Efengyl i brofi'r un gynhaliaeth a nerth â Paul. Gweddiwn ar i Dduw trwy'r Ysbryd ein hadfywio a'n defnyddio i amlygu Ei ddaioni i gyd sy'n gwegian.

Er mwyn esbonio'r camau ymarferol yr ydym am eu cymryd yn y dyfodol fel ymateb i'r argyfwng Covid-19 presennol, dyma rai pwyntiau o wybodaeth sy'n dilyn cyngor gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg:

- Ni fydd oedfaon nag unrhyw weithgareddau (ac eithrio'r ddau bwynt isod) yn cael eu cynnal yn ein capeli hyd nes y cawn arweiniad pendant gan yr awdurdodau.
- Angladdau hollol breifat i'r teulu agos yn unig a dim bwyd i'w ddarparu mewn festrïoedd.
- Priodasau wedi'u cyfyngu i'r pâr sy'n priodi a nifer digonol o dystion yn unig.

## ADNODDAU ADDOLI

Er y bydd cyfyngiadau sylweddol arnom, ni fyddwn yn stopio addoli Duw! Fel ffordd i'n cynorthwyo, byddwn yn darparu adnoddau gwahanol i'r arfer:

- **Bydd darllediad byw ar wefan [www.youtube.com](http://www.youtube.com) am 10.30 bob bore Sul.** Gan na fydd y cyfeiriad cyswllt priodol ar gael tan ychydig funudau cyn y darllediad, bydd y cyswllt yn ymddangos ar dudalen flaen gwefan [www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) bore Sul. Os na allwch ymuno â ni am 10.30, bydd modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.
- **Bydd taflen o'r gwasanaeth ar gael i'w dosbarthu.** Os nad oes gennych gyswllt i'r we a'ch bod yn dymuno copi o'r gwasanaeth, gadewch i Mair wybod. Cofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.
- **Bydd CD ar gael i'r rhai sy'n dymuno gwranddo ar recordiad sain o'r gwasanaeth.** Os byddwch yn dymuno CD, rhowch wybod i Mair.

## ADNODDAU DYSGU

- **Ar gyfer rhieni plant, bydd gwersi ysgol Sul ar gael dros ebost.** Cysylltwch â Rhodri.
- **Ar gyfer yr oedolion, bydd taflenni cwestiwn ac ateb ar gael ar ebost neu ar bapur.** Os am gopi papur, cysylltwch â Mair a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy.

## LLAIS BRO ALED

Bydd Llais Bro Aled yn parhau i gael ei gyhoeddi bob pythefnos. Cofiwch adael i ni wybod am unrhyw un sydd mewn profedigaeth, yn yr ysbyty neu ar achlysur dathliad arbennig.

## BUGEILIO

Bydd pethau'n newid o safbwynt bugeiliol hefyd. Ni fydd ymweliadau ond yn digwydd bellach mewn amgylchiadau argyfyngus. Ond wrth gwrs, mae gofal bugeiliol i barhau trwy gyfrwng y ffôn, a bydd cyd-aelodau, blaenoriaid, a Mair a minnau yn barod iawn i sgwrsio ac i dderbyn gwybodaeth ynglŷn â sut mae pawb.

## CYMORTH YMARFEROL

Rydym hefyd yn dosbarthu taflen er mwyn i'n **haelodau sy'n iau a heb broblemau iechyd** allu bod yn gymorth i rai sy'n debygol o orfod hunan-ynysu gartref. Hyd yn oed mewn amgylchiadau fel hyn, gallwn barhau i ofalu am ein gilydd a dangos cariad Crist mewn ffyrdd ymarferol. Cadwch yn ddiogel, cadwch mewn cysylltiad, ac fel y dywed 1 Corinthiaid 16:13 'Daliwch i gredu.'

*Rhodri*

## Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291  
Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536